CANLLAWIAU – DIFFINIADAU O SGILIAU IAITH PAN FYDD Y GYMRAEG YN HANFODOL/DYMUNOL AR GYFER SWYDD

Swyddi Addysgu a Dysgu

Bydd statws y Gymraeg fel sgil hanfodol neu'n ddymunol a lefel y sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol yn cael ei nodi yn y **fanyleb disgrifiad swydd /person**.

ENGLISH VERSION BELOW

Sgìl	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol
Dealltwriaeth	Yn gallu deall cyflwyniadau a thrafodaethau proffesiynol sy'n cynnwys rhywfaint o dermau technegol.	Yn gallu deall y rhan fwyaf o sgyrsiau dydd i ddydd yn y dosbarth ac ymhlith cydweithwyr. Yn gallu ymdopi â thrafodaethau mewn cyfarfodydd tîm.	Yn gallu deall cyfarchion a sgyrsiau syml, rhagweladwy.
Siarad	Yn gallu cyflwyno gwersi yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddefnyddio termau technegol yn briodol. Yn gallu cyfrannu mewn sefyllfaoedd proffesiynol cyfarwydd, fel cyfarfodydd tîm.	Yn gallu cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda dysgwyr ynghylch materion addysgol. Yn gallu cynnal sgyrsiau beunyddiol gyda chydweithwyr	Yn gallu cyfarch dysgwyr a staff, a defnyddio nifer gyfyngedig o ymadroddion penodol.
Llythrennedd	Yn gallu darllen testunau safonol sy'n cynnwys termau technegol	Yn gallu darllen testunau syml, yn cynnwys negeseuon ebost.	Yn gallu darllen arwyddion sy'n gyffredin yn y sefydliad.

Sgìl	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol
	sy'n berthnasol i faes arbenigedd yr ymarferydd. Yn gallu asesu gwaith y dysgwyr. Yn gallu cywiro gwaith y dysgwyr yn unol â strategaethau llythrennedd y Grŵp. Yn gallu defnyddio meddalwedd Cymraeg (h.y. gwiriwr sillafu ac ati) i gynhyrchu amrediad o destunau e.e.: • Adnoddau addysgu a dysgu personol • Adborth ysgrifenedig i ddysgwyr ar eu gwaith ac mewn adroddiadau • Negeseuon ebost • Llythyrau safonol Yn gallu addasu cyfieithiadau yn ôl y galw.	Yn gallu cynhyrchu testunau syml e.e.: • Amrediad o sylwadau safonol ar waith y dysgwyr • Negeseuon ebost anffurfiol • Ffurflenni safonol	Yn gallu darparu sylwadau cefnogol ar waith y dysgwyr.